# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEF y Parc

## Ar gyfer y flwyddyn adrodd
## 1 Mawrth 2021 – 31 Mawrth 2022

**Cyhoeddwyd Medi 2023**

# Cynnwys


| **Adrannau cyflwyniadol 1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol yr IMB | 3 |
| 2. | Disgrifiad o’r sefydliad | 4 |
| 3. | Crynodeb gweithredol | 5 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 8 |
| 5. | Triniaeth deg a dyngarol | 11 |
| 6. | Iechyd a llesiant | 15 |
| 7. | Cynnydd ac ailsefydlu | 17 |
| **Gwaith yr IMB** | | **20** |
| **Ceisiadau i’r IMB** | | **21** |


**Cyhoeddir holl adroddiadau blynyddol yr IMB ar www.imb.org.uk**

# Adrannau Cyflwyniadol1 – 3

## 1. Rôl statudol yr IMB

Mae Deddf Carchardai 1952 yn ei gwneud yn ofynnol i bob carchar gael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau'r gymuned y mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gan weinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd:

- bodloni ei hun ynglŷn â thriniaeth ddyngarol a chyfiawn y rhai a ddelir yn y ddalfa yn eu carchar a'r ystod o raglenni i'w paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau, a digonolrwydd y rhaglenni hynny
- hysbysu'n brydlon yr Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y dirprwywyd awdurdod iddynt fel y gwêl yn briodol, unrhyw bryder sydd ganddynt
- adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar lwyddiant y carchar i gyflawni'r safonau a'r gofynion a osodir arno a pha effaith y mae'r rhain wedi'i chael ar y rhai yn y ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, a hefyd cofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn Erbyn Arteithio a Thriniaeth Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall neu Gosb (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol a grëwyd i atgyfnerthu diogelwch i bobl wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl yn agored iawn i niwed ac mae'n ceisio atal eu camdriniaeth drwy sefydlu system o ymweliadau neu archwiliadau i bob lleoliad cadw. Mae OPCAT yn ei gwneud yn ofynnol i Wladwriaethau ddynodi System Ataliol Genedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau cadw, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer carcharorion ac i wneud argymhellion ar gyfer atal camdriniaeth. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) yn rhan o System Ataliol Genedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae Carchar Ei Fawrhydi (CEF)/Sefydliad Troseddwyr Ifanc (STI) y Parc yn sefydliad lleol categori B gydag uned cadw pobl ifanc o dan 18 oed.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r boblogaeth oedolion ac oedolion ifanc (18 i 25 oed); mae adroddiad ar wahân ar yr uned ar gyfer pobl ifanc. Mae gan y Parc:

- llety arferol ardystiedig sylfaenol ar gyfer 1,699 o oedolion ac oedolion ifanc o 1 Mawrth 2018[1];
- capasiti gweithredol presennol o 1,599 (gan gynnwys 64 o bobl ifanc).

Agorodd CEF/STI ar 17 Tachwedd 1997 a'r carchar hwn yw'r unig garchar sy'n cael ei redeg yn breifat yng Nghymru. Mae'n cael ei reoli gan Wasanaethau Cyfiawnder G4S ar ran Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mae llawer o staff y carchar yn cael eu recriwtio o'r ardal leol.

Mae'r carchar wedi'i leoli ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr ond gellir cyrraedd ato'n gyfleus ar ffordd a rheilffordd.

Yn gyffredin â'r holl sefydliadau dan gontract, mae gan CEM/STI y Parc reolwr HMPPS. Mae'r rheolwr a'i dîm yn rheoli'r contract 25 mlynedd rhwng y Gwasanaeth Carchardai a G4S ac maent yn uniongyrchol atebol i'r cyfarwyddwr rheoli troseddwyr (Cymru). Mae Cyfarwyddwr y carchar yn cael ei gyflogi gan G4S ac mae'n cyfateb i Lywodraethwr mewn sefydliad sy'n cael ei redeg yn gyhoeddus.

Gall bloc uned carcharorion agored i niwed Y Coed letya 387 carcharor ond y capasiti gweithredol yw 325.

- Darperir gwasanaethau gofal iechyd gan Justice Health, Gwasanaethau Cymorth Plismona ac Iechyd G4S.
- Darperir addysg gan G4S.
- Darperir gwasanaethau llyfrgell gan Greenwich Leisure Limited.
- Darparwyd gwasanaethau ailsefydlu ar gyfer llety, cyflogaeth a chefnogaeth gan Ymddiriedolaeth St Giles (Cwmni Ailsefydlu Cymunedol) hyd at fis Mehefin 2021, pan ddaeth contract HMPPS yn weithredol.
- Mae'r ganolfan ymwelwyr yn cael ei staffio gan Barnardo's.

Mae gan y carchar gysylltiadau sefydledig â nifer o sefydliadau a chwmnïau sy'n darparu cyrsiau hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth.

[1] Mae'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar ar yr adeg adrodd, ond gallant newid yn dilyn dilysiad pellach ac felly efallai na fyddant bob amser yn cyfateb ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir yn ddiweddarach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# 3. Crynodeb gweithredol

## 3.1 Cefndir yr adroddiad

Mae’r adroddiad hwn yn cwmpasu’r cyfnod o 1 Mawrth 2021 i 31 Mawrth 2022. Mae wedi’i ymestyn o un mis er mwyn cyd-fynd â chyfnod adrodd y carchar.

Mae’r cyfnod hwn yn cyd-fynd ag ail flwyddyn y pandemig Covid pan leihawyd y Bwrdd i ddau aelod llawn. Dychwelodd un aelod i ymweld yn llawn amser ar 1 Mawrth 2021, roedd diffyg presenoldeb yr aelod arall yn cyfyngu’r gwaith monitro gweithredol ar draws y carchar.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn roedd yna brinder staff ar brydiau a arweiniodd at drefniadau cyfyngedig a hollt ac, ar un adeg, nodwyd nad oedd staff yn dychwelyd i’r gwaith yn syth ar ôl eu cyfnod o ynysu ar ôl Covid. Roedd rheolwyr weithiau'n cael anhawster cysylltu â'r staff hyn dros y ffôn a dechreuodd yr adran Adnoddau Dynol anfon llythyrau at staff yr oedd eu cyfnod ynysu wedi dod i ben.

Ail-ddechreuodd addysg a diwydiannau eu gweithgareddau ym mis Ebrill 2021 ond roedd cyfyngiadau a oedd yn ddibynnol ar lefelau Covid; yn ystod y mis adroddwyd nad oedd Parc bellach yn safle gydag achosion.

Er bod y carcharorion wedi’u cloi i mewn am gyfnodau hir o amser, a arweiniodd at rai cyfyngiadau, mae’n rhaid rhoi clod i’r rheolwyr a’r staff am y gweithdrefnau a’r arferion da a sicrhaodd na chollwyd unrhyw fywydau, carcharorion na staff, oherwydd Covid yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid rhoi clod i’r carcharorion hefyd am y ffordd y gwnaethant ymateb ar hyd ail flwyddyn y pandemig.

Fodd bynnag, adroddwyd ym mis Rhagfyr bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dymuno archwilio’r mesurau rheoli oherwydd ‘nid oedd [CEF Parc] yn llwyddo i atal [Covid-19] rhag dod i mewn drwy’r drws’. Yr argymhellion a ddeilliodd o hyn oedd ‘lleihau’r ymwelwyr drwy’r drws, [a] sicrhau bod y mesurau cadw pellter cymdeithasol a gwisgo masg yn llym.’

Cafwyd ymweliad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 14 Rhagfyr a mynegwyd pryderon nad oedd rhai aelodau o staff yn gwisgo masgiau ac nid oedd rhai’n gwisgo masgiau yn gywir. Cafwyd cydnabyddiaeth o’r angen i fynd i’r afael â’r materion hyn ac atgoffwyd staff ac ymwelwyr o’r angen i ddilyn y weithdrefn.

Roedd tystiolaeth bod y cyfyngiadau symud ar yr esgyll yn achosi rhywfaint o ddiffyg disgyblaeth ymhlith y carcharorion, gan arwain at fygythiadau yn erbyn y staff gofal iechyd.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd statws CEF y Parc fel safle o achosion Covid yn gwneud trosglwyddiadau’n anos, a arweiniodd at rwystredigaeth ymhlith y carcharorion a oedd eisio trosglwyddo.

Roedd cyfundrefnau hollt yn weithredol gyda’r carcharorion yn hysbysu staff y byddai'n well ganddynt ynysu am 10 diwrnod na bod o dan drefn gyfyngedig. Dywedwyd mewn cyfarfod dyddiol na fyddai Iechyd Cyhoeddus Cymru ‘yn cefnogi cloi’n llwyr am 10 diwrnod oherwydd rhesymau iechyd meddwl’.

Ar 11 Chwefror adroddwyd bod tîm rheoli achosion wedi datgan, pe byddai mwy na 5% o boblogaeth uned yn cael canlyniad prawf positif, yna byddai'r uned honno'n destun trefn gyfyngedig.

Ar 9 Mawrth nodwyd bod trosglwyddiad Carchar y Parc i lefel rhybudd 2 yn y broses o gael ei gymeradwyo. Dechreuodd y gwaith ar y cynllun cynyddu i gam 2.

### 3.2 Prif farnau

**Pa mor ddiogel yw'r carchar?**

Er gwaethaf y newidiadau parhaus ac amrywiol i'r gyfundrefn, gellir ystyried bod y cyfyngiadau wedi cyfrannu at well diogelwch, yn sicr yng nghyd-destun cyfyngu ar ledaeniad heintiau.

Mae'r Bwrdd o'r farn, er gwaethaf yr heriau niferus a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn, bod y staff wedi gweithio'n effeithiol i wneud y carchar yn amgylchedd diogel i garcharorion.

Ar draws y carchar, gan addasu ar gyfer cyfnod hwy'r adroddiad hwn, gwelwyd cynnydd bychan yn y nifer o ddigwyddiadau treisgar. Lleihawyd nifer y digwyddiadau ar uchder o 8%, a lleihawyd y defnydd o rym o 10%.

Fel y nodwyd yn adroddiad y flwyddyn flaenorol, er bod y carcharorion yn cael eu cadw yn eu celloedd am hyd at 23 awr y dydd a bod ymweliadau cymdeithasol wedi'u cyfyngu, roedd yn peri pryder i'r Bwrdd bod cyffuriau yn parhau i ddod i mewn i'r carchar.

**Pa mor deg a dyngarol yw'r driniaeth o garcharorion?**

Roedd prinder staff wedi cael effaith ddifrifol ar garcharorion, a oedd yn cwyno am ddiffyg cyfathrebu am gwtogi'r gyfundrefn. Roedd yn anodd iddynt weld y cyfyngiadau Covid yn cael eu llacio y tu allan er eu bod yn parhau i fod mewn grym yn y carchar gyda chyfundrefn gyfyngedig ac oriau hir iawn dan glo yn eu celloedd.

Cafwyd newidiadau staff yn ystod y cyfnod hwn ac, er y cafodd swyddogion newydd eu recriwtio, rhoddwyd mwy o faich ar y staff profiadol. Arsylwodd y Bwrdd Monitro Annibynnol eu bod yn delio â charcharorion gydag empathi ond gan gynnal eu proffesiynoldeb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

**Sut mae anghenion iechyd a llesiant carcharorion yn cael eu cyflawni?**

Roedd gofal iechyd yn parhau i wynebu heriau, gyda phrinder staff yn parhau a chefnogaeth gyfyngedig i'r rhai â materion iechyd meddwl, o ganlyniad i'r diffyg cefnogaeth gan ofal iechyd cymunedol.

Roedd rhestrau aros yn parhau i fod yn faith, a achosodd bryder ymhlith y carcharorion yn enwedig ym maes iechyd meddwl. Parhaodd y meddyg teulu i gynnal ymgynghoriadau ffôn, a gwelwyd y rhai ag anghenion brys wyneb yn wyneb, gyda meddyg teulu ar y safle bob dydd. Parhaodd y gwasanaeth brysbennu dros y ffôn, er bod methiannau pan oedd yr amseroedd a ddarparwyd i garcharorion yn amhenodol a oedd yn golygu bod carcharorion yn methu eu hymgynghoriad.

**I ba raddau yr oedd y carcharorion yn gwneud cynnydd tuag at ailsefydlu llwyddiannus?**

Roedd cyfundrefnau a oedd ar waith yn ystod y cyfnod yn cyfyngu'n ddifrifol ar ailsefydlu, gyda gweithgareddau'n seiliedig ar esgyll yn bennaf.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o gyfleusterau cyswllt fideo gan y llysoedd a gweithwyr proffesiynol eraill a oedd yn gofyn am y gwasanaeth hwn, a gafodd ei reoli'n briodol.

Parhaodd galwadau fideo cymdeithasol gyda'r fformat presennol. Cafwyd 48 o sesiynau 30 munud y dydd fel uchafswm, gyda therfynellau fideo wedi'u lleoli ar bloc X, T4, T3, T2, ymweliadau cyfreithiol ac ymweliadau'r lolfa. Dywedodd rhai o'r carcharorion bod yn well ganddynt y galwadau fideo cymdeithasol oherwydd gallent weld eu hanifeiliaid anwes, er enghraifft.

## 3.3 Y prif feysydd i'w datblygu

### *I'R GWEINIDOG*

Allwch chi weithio gyda G4S a'u hannog i gynyddu cyflog staff y carchar er mwyn cynyddu cyfraddau recriwtio a chadw?

### *I'R GWASANAETH CARCHARDAI*

A wnaiff y Gwasanaeth Carchardai weithio gyda'r contractwr i gynyddu capasiti rhaglenni ymddygiad troseddu ac ymyriadau yn y Parc, gan gynnwys y rhai ar gyfer carcharorion a ganfuwyd yn euog o droseddau rhyw, fel yr argymhellwyd gan Arolygiaeth Carchardai EF, er mwyn i garcharorion elwa o'r rhain heb orfod trosglwyddo i garchar arall?

### *I'R CYFARWYDDWR*

Mae'r lefel uchel o apwyntiadau gofal iechyd a fethwyd yn parhau, sy'n dangos unwaith eto bod angen archwilio'r system apwyntiadau i sefydlu lle mae'r broses yn methu.

Parhaodd y cwynion ynghylch bwyd, gan godi cwestiynau ynglŷn ag ansawdd, swm a dewis. Mae hyn yn codi nifer o gwestiynau, gan gynnwys pryd yr adolygwyd y ddarpariaeth fwyd ddiwethaf ac a fu maethegydd yn rhan o'r broses. Mae angen adolygu'r ddarpariaeth arlwyo yn y Parc.

Dylid archwilio effeithiolrwydd y gwasanaeth llyfrgell ar ei ffurf bresennol er mwyn gweithio tuag at adfer y lefelau defnydd blaenorol ar draws y carchar.

## 3.4 Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf

O ystyried bod y cyfnod adrodd yn cwmpasu ail flwyddyn y pandemig, gellid dweud bod amgylchiadau wedi cyfyngu ar y newid; fodd bynnag, ar sail profiad y flwyddyn flaenorol, roedd rheolwyr a staff yn gallu cynllunio'n fwy effeithiol i amddiffyn carcharorion a staff rhag y risgiau a gyflwynwyd gan y pandemig. Roedd presenoldeb da a chyfarfodydd cynllunio trefn wythnosol strwythuredig yn cael eu cynnal i sicrhau bod y carchar yn gallu symud trwy gamau dilyniant tuag at swyddogaethau arferol yn amserol.

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

Mae staff ar draws y carchar wedi cynllunio dull cydgysylltiedig trylwyr a pharhaus ar gyfer rheoli lles a diogelwch carcharorion ac mae'r Bwrdd yn cydnabod ymdrech ac ymroddiad aruthrol pob aelod o staff, unwaith eto yn ystod cyfnod heriol.

Cynhelir Cyfarfodydd Ymyrraeth Diogelwch yn wythnosol pan fydd staff ar draws nifer o adrannau perthnasol yn cynnal trafodaethau trylwyr a gwneir gwaith cynllunio i sicrhau cynnydd tuag at amgylchedd mwy diogel.

Oherwydd Covid roedd angen adolygu ac addasu'r gwaith cynllunio gweithredol yn barhaus o ganlyniad i'r lefelau staffio is oherwydd salwch staff a'r rhai a oedd yn gadael y carchar.

### 4.1 Derbyn a sefydlu

Parhaodd carchar y Parc i dderbyn carcharorion ar hyd cyfnod yr adroddiad, er bod trosglwyddiadau rhwng carchardai yn gyfyngedig ac ataliwyd hyn yn llwyr am gyfnodau.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa

Bu 1,285 o ddigwyddiadau hunan-niweidio sy'n cynrychioli, o ystyried y cyfnod estynedig, gostyngiad enwol o gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol. Priodolwyd tua 28% o'r digwyddiadau i garcharorion sy'n hunan-niweidio dro ar ôl tro ac ystyriwyd mai canlyniad gorbryder ynglŷn â chael eu cloi am oriau, gorbryder yn gyffredinol a phryderon ynghylch eu teuluoedd oedd yn gyfrifol am hyn.

Yn anffodus, bu saith marwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod hwn. Roedd un yn farwolaeth hunan-achosedig, achoswyd un gan y defnydd o gyffuriau seicoweithredol, roedd dwy yn gysylltiedig â Covid (mewn un achos roedd y carcharor wedi gwrthod brechlyn ac yn yr achos arall cafodd y carcharor niwmonia yn yr ysbyty) ac achoswyd dwy farwolaeth gan ganser yr ysgyfaint. Ni chadarnhawyd achos y farwolaeth arall hyd yma.

Yn achos y farwolaeth hunan-achosedig, cafwyd argymhellion gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (PPO) ynglŷn â'r angen i beidio dibynnu'n gyfan gwbl ar yr hyn mae carcharor yn ei ddweud, sut maent yn cyflwyno neu eu hymddygiad yn y gorffennol yn y carchar ac i sicrhau hefyd pan fydd prosesau sefydlu neu'r dyddiau cynnar yn y ddalfa yn nodi ffactorau risg nad ydynt eisoes yn hysbys, dylai staff gofnodi manylion y rhain yn glir ac unrhyw benderfyniad amddiffynadwy i beidio agor AACT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm). Dylai'r Gwasanaeth Prawf atgoffa rheolwyr troseddwyr cymunedol o bwysigrwydd rhannu gwybodaeth risg briodol mewn dull amserol gyda staff HMPPS, a'r broses ar gyfer gwneud hynny, yn arbennig mewn achosion pan fydd unigolyn wedi'i adalw i'r ddalfa.

Roedd adroddiad yr Ombwdsmon i farwolaeth y carcharor a oedd wedi gwrthod brechlyn yn datgan bod y gofal a dderbyniwyd yn y Parc yn cyfateb i'r hyn y gallai fod wedi disgwyl ei dderbyn yn y gymuned. Fodd bynnag, roedd gan y carcharor bwysedd gwaed uchel ac, er y gofynnwyd am brofion gwaed i adolygu'r feddyginiaeth yr oedd yn ei dderbyn ar gyfer ei orbwysedd, nid oedd cynllun gofal

hirdymor wedi'i greu i fonitro ei gyflwr. Yn dilyn achosion diweddar yn y Parc lle nad oedd cynlluniau gofal cyflwr iechyd hirdymor wedi'u creu, dywedodd y pennaeth gofal iechyd fod templed newydd ar gyfer pob derbyniad, a fyddai'n nodi carcharorion â chyflyrau hirdymor ac yn rhybuddio staff i greu gofal cynllun. Roedd yn amlwg nad oedd hwn wedi'i roi ar waith mewn pryd i staff greu cynllun gofal ar gyfer gorbwysedd y carcharor hwn. Argymhellwyd y dylai'r pennaeth gofal iechyd adolygu'r mesurau diweddar i sicrhau bod gan bob carcharor â chyflyrau iechyd cronig gynlluniau gofal a thriniaeth a rhoi sicrwydd bod y rhain yn gweithredu'n effeithiol. Yn ogystal, argymhellwyd y dylai'r pennaeth gofal iechyd sicrhau bod staff yn mynd ar drywydd profion labordy amhendant.

Derbyniwyd pob un o'r argymhellion a gweithredwyd arnynt.

Yn ystod y cyfnod adrodd 13 mis hwn, agorwyd 1,118 ACCT o gymharu â 1,145 ACCT yn ystod y cyfnod adrodd 12 mis blaenorol. Yr hyn sy'n fwy arwyddocaol yw'r gostyngiad misol tua diwedd y cyfnod y gellid ei ystyried fel adlewyrchiad o fywyd carchar yn anelu at normal newydd, h.y. y gyfundrefn gyfyngedig yn dod yn fwy normal ac felly'n cael ei derbyn yn fwy gan garcharorion.

DADANSODDIAD ACCT AGORED YN ÔL MIS – MAWRTH 2021 – MAWRTH 2022

| | |
|---|---|
| MAWRTH 2021 | 126 |
| EBRILL 2021 | 95 |
| MAI 2021 | 99 |
| MEHEFIN 2021 | 91 |
| GORFFENNAF 2021 | 120 |
| AWST 2021 | 88 |
| MEDI 2021 | 79 |
| HYDREF 2021 | 81 |
| TACHWEDD 2021 | 71 |
| RHAGFYR2021 | 75 |
| IONAWR 2022 | 70 |
| CHWEFROR 2022 | 57 |
| MAWRTH 2022 | 58 |

Roedd saith ACCT tymor hir yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod drwy gymorth monitro parhaus.

### 4.3 Trais a lleihau trais, hunan-ynysu

Roedd staff yn y Parc yn cynnal cyfarfodydd ymyrraeth diogelwch ar hyd cyfnod yr adroddiad hwn er mwyn adolygu cynlluniau her, cymorth ac ymyrraeth (CSIP) ar gyfer rheoli carcharorion sy'n dreisgar neu'n peri risg uwch o drais. Mae'r

carcharorion hyn yn cael eu rheoli a'u cefnogi ar gynllun, gyda thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd sy'n nodi'r rhesymau dros yr atgyfeiriadau a'r ffactorau cyfrannol.

Gwahoddir aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfodydd hyn er bod nifer y mynychwyr wedi'i chyfyngu oherwydd y nifer isel o aelodau'r bwrdd. Mae cofnodion ar gael ac yn cael eu darllen gan y Bwrdd.

### 4.4 Carcharorion agored i niwed, diogelu

Roedd tua 325 carcharor yr ystyriwyd eu bod mewn perygl ym mhoblogaeth ehangach y carchar ac sy'n cael eu cadw yn yr uned unigolion agored i niwed (bloc X) gyda'r mwyafrif yn euog o droseddau rhywiol, er bod eraill yn cael eu hystyried yn anniogel oherwydd statws trawsryweddol, anabledd neu fregusrwydd oedran.

Fel yn y flwyddyn adrodd flaenorol, gosodwyd 48 o gabannau symudol i gartrefu carcharorion unigol ar dir bloc X, er mwyn lliniaru'r risgiau o Covid yn lledaenu yn y gymuned hon.

Mynychodd aelodau'r Bwrdd rai o'r adolygiadau o achosion yn rhithwir i rai o'r carcharorion mwy agored i niwed ac ystyriwyd bod y rhain yn adolygiadau trylwyr, manwl a oedd yn ysgogi'r meddwl, ac a oedd yn canolbwyntio'n benodol iawn ar lesiant y carcharor a chanlyniadau positif.

### 4.5 Y defnydd o rym

Pan oedd yn bosibl, mae'r aelodau wedi mynychu cyfarfodydd rhithwir ar ddefnyddio grym ac maent wedi derbyn cofnodion o gyfarfodydd misol pan nad ydynt wedi gallu eu mynychu.

Cesglir yr holl ddata ar sail fisol ac mae'n destun proses graffu drylwyr a pharhaus ac, ar hyd y cyfnod, roedd y cyfarfodydd yn cynnwys adolygiad o bob achos, er mwyn sicrhau bod arferion priodol yn cael eu mabwysiadu.

Bu gostyngiad o tua 10% yng nghyfanswm yr achlysuron lle defnyddiwyd grym, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; nid oedd hyn o ganlyniad i'r gyfundrefn gyfyngol yn gyfan gwbl, ond hefyd o ganlyniad i graffu ac arfer gorau.

### 4.6 Atal eitemau anghyfreithlon

Roedd yn anodd monitro lefelau'r defnydd o gyffuriau ar draws y sefydliad yn ystod y cyfnod hwn o ganlyniad i'r amhariad i'r drefn a llai o symudiadau ar draws yr ystâd carchardai.

Roedd presenoldeb cyffuriau, ffonau symudol ac eitemau anghyfreithlon eraill yn parhau, a oedd yn effeithio ar sefydlogrwydd yr esgyll, gyda chanlyniadau megis bwlio a dyled. Mae'r gallu hwn i gael mynediad at gyffuriau, gwirodydd a ffonau symudol yn parhau i fod yn bryder ar gyfer diogelwch carcharorion.

Mae'r staff derbyniadau ac eiddo yn gweithio'n ddiwyd i gyfyngu gallu'r carcharorion i ddod â chyffuriau i mewn i'r carchar: defnyddir sganiwr corff yn y dderbynfa. Mae'r tîm sy'n delio ag eiddo carcharorion yn drylwyr, ac yn sgil y cyfleusterau sgrinio gwell yn yr ystafell bost, mae nifer y canfyddiadau wedi cynyddu. Mae chwech o gŵn cyffuriau yn y carchar ac mae'r IMB wedi tystio eu heffeithiolrwydd ar yr esgyll.

# 5. Triniaeth deg a dyngarol

## 5.1 Llety, dillad, bwyd

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, derbyniwyd mwy o adborth gan garcharorion yn ystod y broses fonitro ar yr asgell a chwynion ynglŷn â bwyd, gan bwysleisio ansawdd, swm a gwerth maethol.  Fodd bynnag, cydnabuwyd bod y gofynion gweithredol wedi bod yn heriol yn sgîl Covid.

Ni nododd y Bwrdd unrhyw faterion penodol ynglŷn â llety neu ddillad.

## 5.2 Gwahanu, llety arbennig

Mae 24 o gelloedd ar uned Phoenix, sy'n cartrefu carcharorion wedi'u cadw ar wahân, gyda phum cell gyda chamerâu a staff meddygol yn mynychu o leiaf pum gwaith yr wythnos.  Mae 16 cell yn yr uned gwahanu a gofal (SCU), sydd ar gyfer carcharorion â'r anghenion mwyaf cymhleth.  Mae'r ddwy uned yn cael eu cadw'n lân a threfnus.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, gosodwyd 356 o garcharorion ar wahân, sef cynnydd o 65 ar y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gostyngwyd y nifer a gadwyd ar wahân am dros 42 diwrnod yn sylweddol o 35 i 23 dros y cyfnod blaenorol, sy'n cael ei ystyried fel adlewyrchiad o ymdrechion staff i adleoli carcharorion i leoliad arferol neu i'w trosglwyddo; mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd a ddelir am gyfnodau o dros 42 diwrnod.

| Dyddiau | Nifer y Carcharorion | Nifer y Carcharorion |
|---|---|---|
| | 2020 / 2021 | 2021 / 2022 |
| 42 + | 8 | 8 |
| 50 + | 9 | 2 |
| 60+ | 3 | 2 |
| 70+ | 4 | 2 |
| 80+ | 0 | 2 |
| 90+ | 3 | 1 |
| 100+ | 2 | 2 |
| 110+ | 4 | 1 |
| 120+ | 1 | 1 |
| 130+ | 1 | 2 |
| | 35 | 23 |

Gall rhai carcharorion ddefnyddio cael eu gwahanu fel ffordd i gael eu trosglwyddo o'r sefydliad am eu bod eisiau symud o Gymru i fod yn agosach at adref ac am resymau fel dyled a diogelwch.

Roedd tua 60 carchar wedi'u lletya yn yr Uned Gwahanu a Gofal.

Parhaodd y byrddau trefn dda a/neu ddisgyblaeth dda ar hyd y cyfnod, gydag un aelod o'r Bwrdd yn mynychu mewn person ac eraill dros y ffôn neu'n rhithwir.  Roedd yr adolygiadau hyn yn ceisio sicrhau bod y carcharorion hynny a oedd wedi'u cadw

ar wahân er trefn a disgyblaeth dda y carchar yn cael eu symud yn ôl i'w lleoliad arferol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr adolygiadau hyn yn cael eu cynnal yn drylwyr, gan ddangos gofal a pharch i'r carcharorion.

### 5.3 Perthnasoedd staff-carcharorion, gweithwyr allweddol

Dechreuwyd y broses o ddarparu'r gwaith allweddol yn gynnar yn 2021. Cynyddodd nifer y sesiynau a gynhaliwyd ar draws y safle yn raddol, a pharhaodd y sesiynau wythnosol gyda'r rhai a nodwyd yn y model darparu eithriadol (EDM).

### 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae rheolwr cydraddoldeb newydd wedi bod yn ei swydd ers Ebrill 2021. Mae wedi cynnal nifer o sesiynau hyfforddiant ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac mae wedi cyhoeddi cylchlythyr cydraddoldeb misol.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws misol ar gyfer nodweddion gwarchodedig yn ogystal â rhai ar wahân ar gyfer gwladolion tramor. Cynhaliodd cynrychiolwyr cydraddoldeb esgyll eu grwpiau ffocws misol eu hunain ar gydraddoldeb. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i ddigwyddiadau arwyddocaol, er enghraifft mis Hanes Pobl Ddu a mis LHDT, diwrnod pobl anneuaidd yn ogystal â Pride, a dathlwyd y digwyddiadau hyn.

Mae uned Y Cynnwys yn lletya'r rhai ag angen cymorth dysgu a datblygu, ac mae'n lletya hyd at 74 carcharor sydd â chynlluniau unigol ar waith.

Roedd pob carcharor newydd a oedd yn cyrraedd y Parc yn cael eu sgrinio gan y swyddog gwladolion tramor, ac roedd yn rhaid i unrhyw garcharorion oedd yn wladolion tramor gael eu hatgyfeirio at y Swyddfa Gartref o fewn pum niwrnod.

Mae'r rhan fwyaf o'r arwyddion ond nid pob cyfathrebiad yn ddwyieithog. Roedd gan bob asgell hyrwyddwr y Gymraeg. Anogwyd y carcharorion i ddysgu, siarad a chymdeithasu yn Gymraeg. Mae cydlynydd y Gymraeg a hyrwyddwr y Gymraeg i'r carcharorion sy'n gyfrifol am gydlynu holl hyrwyddwyr y Gymraeg ar draws y carchar. Roedd carcharorion newydd a oedd yn siarad Cymraeg yn cael eu derbyn yn y dderbynfa a chofnodwyd eu dewis iaith ar systemau rheoli data y carchar.

Cyfleoedd cyfyngedig iawn a oedd ar gael i siaradwyr Cymraeg sgwrsio gyda siaradwyr Cymraeg eraill yn ystod y pandemig ac roeddynt yn croesawu'r cyfle i allu defnyddio eu hiaith ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

Cyflwynwyd canllawiau gweithredol manwl i staff ar ofalu am a rheoli carcharorion trawsryweddol ac ysgrifennwyd cynlluniau rheoli gofal ac unigol ar eu cyfer. Roedd problemau weithiau ynglŷn â dillad a cholur addas.

Aed i'r afael â ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau o wahaniaethu (DIRF) yn gyflym ac effeithiol bob amser. Gallai hynny achosi i rai carcharorion golli hyder yn y broses DIRF. Roedd y Cyfarwyddwr yn derbyn, yn adolygu ac yn aseinio DIRF i'w holrhain.

Mae'r ffigurau defnydd o rym ar gyfer oedolion ifanc (18–25) yn gyson uwch na chyfartaledd y carchar, fel y mae'r ffigurau ar gyfer y boblogaeth ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, sy'n awgrymu rhywfaint o anghymesuredd. Lle bo modd, mae

materion yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol, rhanbarth a chrefydd yn cael eu hystyried a'u monitro'n rheolaidd gan y tîm cydraddoldeb. Nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw gamau y mae'r carchar yn eu cymryd i nodi achosion sylfaenol anghymesuredd.

### 5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

Gall carcharorion ymarfer eu crefydd; roedd y gaplaniaeth yn cyfranogi'n llawn ym mywyd y carchar ac yn cyfrannu at ofal, cefnogaeth ac adsefydliad cyffredinol y carcharorion.

Os oedd caplan ar gael, byddai grwpiau fel arfer yn cyfarfod ar gyfer addoli ar y cyd. Wrth gwrs, cafodd cynulliadau o'r fath eu hatal yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud. Penodwyd caplan Sicaidd newydd i dîm y gaplaniaeth ym mis Gorffennaf 2021 ac roedd ar gael i bob carcharor. Nid oedd gan grefyddau eraill, paganiaeth, Hindŵaeth a'r ffydd Rastaffaraidd, er enghraifft, gaplaniaid penodedig a gallai hyn achosi pryder i rai carcharorion.

Nodwyd dyddiau gwyliau crefyddol ymlaen llaw a mynegwyd eu harwyddocâd drwy'r cylchlythyr. Roedd gan y gaplaniaeth galendr prysur o ddigwyddiadau a defnyddiwyd y ciosgau CMS i gyfleu gwybodaeth am y dyddiau hyn i boblogaeth gyffredinol y carchar. Roedd y caplaniaid yn darparu cymorth bugeiliol ac roeddynt yn weladwy ar yr unedau, yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd carcharorion yn fwyaf tebygol o fod mewn argyfwng.

Bu'r gaplaniaeth yn gweithio yn ôl yr arfer yn ystod y cyfyngiadau symud, ac roedd aelodau o'r tîm yn y sefydliad bob dydd, yn ymweld â charcharorion ac yn darparu cefnogaeth fugeiliol pan oedd angen, i'r carcharorion a'r staff.

### 5.6 Y cynllun cymhellion

Oherwydd y cyfnodau hir o amser y byddai'r carcharorion yn cael eu cloi i mewn oherwydd y cyfyngiadau Covid, cafodd y cynllun cymhellion ei atal dros dro gan HMPPS yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Dilëwyd y lefel sylfaenol, fel na ellid dileu breintiau (er enghraifft teledu yng nghell carcharor) fel cosbau mwyach, ac er bod hyn wedi cael effaith fuddiol, fe effeithiodd hefyd ar y gallu i gynnig cymhellion.

Parhaodd y penderfyniad a wnaed yn ystod y cyfnod blaenorol i gynyddu'r cyfnod a ganiateir ar gyfer parsel i newydd-ddyfodiaid o 28 diwrnod i 56 diwrnod.

### 5.7 Cwynion

Derbyniwyd 4,399 o gwynion yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynnydd o 15% o gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol, 331 y mis ar gyfartaledd, a allai fod o ganlyniad yn rhannol i effeithiau parhaus y gyfundrefn o ganlyniad i'r pandemig ond, er gwaethaf hynny, mae'n rhywbeth y bydd y Bwrdd yn cadw golwg mwy agos arno.

Roedd y nifer fwyaf o gwynion yn ymwneud ag eiddo a gofal iechyd, y rhai sy'n defnyddio mynediad cyfrinachol a bwyd a'r ffreutur.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â derbyn, a allai fod yn adlewyrchiad o'r ffordd gadarnhaol y cafodd carcharorion eu trin wrth gyrraedd.

Yn nhermau ffynonellau'r cwynion, roedd 81% gan garcharorion gwyn Prydeinig, 15% gan y rhai â chefndir du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, sydd 1% yn uwch na'r gyfran ym mhoblogaeth y carchar.

### 5.8 Eiddo

Ar gyfartaledd derbyniwyd 32 o gwynion y mis am eiddo yn ystod y cyfnod. Roedd y rhain wedi'u dosbarthu o amgylch y carchar ac yn anffodus nid yw'r data yn gwahaniaethu rhwng y nifer a oedd yn gysylltiedig â throsglwyddiadau, derbyniadau yn y carchar, eiddo a anfonwyd gan y teulu, neu broblemau sy'n digwydd yn y carchar ei hun, er enghraifft symudiadau.

Bydd y Bwrdd yn monitro hyn yn fwy agos. Mae'r staff eiddo yn gweithio mewn ardal gyda chyfyngiadau gofod sy'n golygu bod y rôl yn fwy heriol nag yr oedd angen iddo fod.

# 6. Iechyd a llesiant

## 6.1 Gofal iechyd corfforol

Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, gwnaed cynnydd i gynyddu'r nifer o glinigau meddyg teulu, gyda naw carcharor yn cael eu gweld ar gyfartaledd ym mhob clinig a llwyddwyd i ostwng y rhestr aros i saith niwrnod, a gellir ystyried bod hynny'n gymaradwy â'r gymuned.  Yn anffodus roedd achosion lle nad oedd y carcharor yn mynychu yn parhau.

Unwaith eto, erbyn diwedd y cyfnod roedd ychydig mwy nac un clinig triniaeth ddeintyddol yn cael eu cynnal bob dydd ar gyfartaledd gyda saith apwyntiad fesul clinig, ond unwaith eto roedd tua un apwyntiad y diwrnod yn cael eu methu.  Yr amser aros am apwyntiad ar ddiwedd y cyfnod adrodd oedd saith wythnos, sy'n well na'r amseroedd aros yn y gymuned.

Roedd apwyntiadau optegwyr yn seiliedig ar angen ac unwaith eto, roedd apwyntiadau a fethwyd, gydag un o bob chwe charcharor yn methu mynychu sydd, o ystyried yr amser aros o 83 diwrnod ar ddiwedd y cyfnod, yn cyflwyno her i'r staff.

Roedd y sefyllfa ar gyfer ffisiotherapi yn gadarnhaol ac ni fethodd unrhyw garcharor eu hapwyntiad yn ystod y chwarter olaf.

Er bod carcharorion yn gwrthod brechiadau Covid yn anecdotaidd, gweinyddwyd 2,500 o frechlynnau.

## 6.2 Iechyd meddwl

Parhaodd yr adborth gan garcharorion yn cwyno am faterion iechyd meddwl ar lefel uchel, gyda chymorth cymwys cyfyngedig ar gael gan asiantaethau allanol.

## 6.3 Ymarfer corff

Roedd cyfyngiadau'n parhau mewn ardaloedd a oedd yn cynnwys y gampfa, ond gwelwyd cynnydd yn y lefelau gweithgarwch pan oedd cyfleoedd yn caniatáu wrth i'r cyfyngiadau Covid lacio.

## 6.4 Adsefydliad cyffuriau ac alcohol

Dyfodol sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth i garcharorion â phroblemau cyffuriau ac alcohol yn ardal De Cymru.  Mae Dyfodol yn darparu cymorth i'r rhai yn y carchar, yn ogystal â'r rhai yn y gymuned, gyda chefnogaeth ychwanegol gan asiantaethau cyfiawnder troseddol gan gynnwys y gwasanaeth prawf.

Darparwyd cyngor a gwybodaeth hollbwysig ar leihau niwed i'r holl garcharorion wrth iddynt gael eu derbyn, lle byddai gwasanaethau Dyfodol yn cael eu hesbonio a derbyniwyd atgyfeiriadau ar gyfer y rhai a oedd yn dymuno derbyn cymorth ar gyfer materion camddefnyddio sylweddau.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd y cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â Covid yn cyfyngu'n sylweddol ar y gallu i ddarparu gwasanaethau adfer o amgylch y carchar. Y dull a fabwysiadwyd yn ystod y cyfnod hwn ac a weithredwyd oedd darparu llinell ddyletswydd Dyfodol er mwyn i'r carcharorion allu cysylltu â'r gwasanaeth, a oedd yn galluogi'r staff i gynnal ymyriadau dros y ffôn pan fyddai angen oherwydd dim ond am gyfnodau cyfyngedig y byddai'r carcharorion yn gadael eu celloedd.

Roedd y pwysau sylweddol ar y gwasanaeth yn parhau, gyda sylweddau seicoweithredol yn parhau i beri pryder yn ogystal â'r nifer o garcharorion â hanes helaeth o gamddefnyddio sylweddau.  Dywedodd y staff eu bod bob amser yn chwilio am ffyrdd i addasu eu hymateb i hyn.  Un enghraifft oedd cyflwyno'r gwasanaeth seicoleg cynorthwyol yn 2021, gan dargedu unigolion ag anghenion diagnosis deuol yn benodol.  Roedd y staff hefyd yn canolbwyntio mwy ar ddata a gwybodaeth reoli a Dangosfwrdd Dyfodol yn agos at ddiwedd y cyfnod adrodd. Roedd y system gwybodaeth reoli fyw hon yn darparu dull adrodd rhyngweithiol ar draws y gwasanaeth yn ogystal â gwybodaeth helaeth ar gyfer rheoli achosion a oedd yn gwella eu dealltwriaeth o anghenion y boblogaeth yn sylweddol.

Roedd carcharorion a oedd angen cymorth ac adsefydliad yn cael eu lletya ym mloc Delta a thŷ A3 ac am resymau cadw pellter cymdeithasol lleihawyd y cyswllt yn ystod y pandemig, gyda'r rhan fwyaf o garcharorion yn cael eu cynnal ar ddos sefydlog o methodone.

Mae T5 yn uned byw heb sylweddau â chymhelliant, lle cafodd preswylwyr eu cydnabod a'u gwobrwyo am fyw heb sylweddau yn y ddalfa.

# 7. Cynnydd ac ailsefydlu

## 7.1 Addysg, llyfrgell

Effeithiodd y cyfyngiadau Covid ar addysg.  Roedd tua hanner y carcharorion yn cael eu cefnogi gydag ystod o ddarpariaeth yn eu cell er mwyn iddynt allu parhau â'u dysgu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau llesiant, wrth i eraill ddefnyddio'r pecynnau gweithgarwch a thynnu sylw, gyda llawer o'r carcharorion yn eu hystyried yn therapiwtig a'u bod yn eu helpu i ymdopi â chael eu cyfyngu i'w celloedd.

Effeithiodd Covid ar allu dysgwyr i ennill gwahanol achrediadau er bod llawer wedi gwneud cynnydd tuag at achrediadau, fel y gwnaeth y rhai ag anawsterau dysgu pan ddatblygodd eu sgiliau llythrennedd.

Bu rhai carcharorion a oedd yn arddangos y sgiliau priodol yn cefnogi'r staff addysgu fel mentoriaid cyfoedion, yn cefnogi dysgwyr llai galluog, ac yn gwella eu galluoedd eu hunain yr un pryd ac mewn rhai achosion yn ennill cymhwyster mentora.

Roedd gwerthfawrogiad o'r cymorth a roddwyd gan y staff a'r mentoriaid cyfoedion, yn arbennig darparu adnoddau a mynediad (er yn gyfyngedig) at offer TG.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cynhaliodd Estyn (yr arolygiaeth addysg yng Nghymru) arolwg a dywedodd bod y ddarpariaeth addysgol a gwaith yn cynnig safonau da, agweddau at ddysgu rhagorol, bod y profiadau addysgu a dysgu yn dda, y gofal a'r cymorth yn rhagorol a bod yr arweinwyr a'r rheolwyr yn darparu safonau rhagorol.

Roedd llyfrgelloedd yn y prif garchar, yr uned carcharorion agored i niwed a'r uned carcharorion ifanc.  Dangosodd y ffigurau am y llyfrau a fenthycwyd ostyngiad yn y defnydd o'r llyfrgell yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, gyda dim ond 5,680 o eitemau'n cael eu benthyg o gymharu â 6,742 yn y cyfnod blaenorol cyfatebol, gostyngiad o 1,062 o lyfrau (16%).  Mae'n bosibl mai'r hyn oedd yn gyfrifol am y gostyngiad hwn oedd nad y carcharorion yn credu bod y broses amgen (a oedd mewn grym oherwydd Covid) yn rhwydd i'w defnyddio, a'r ffaith eu bod yn ddibynnol ar swyddogion i gyflwyno eu harcheb, gostyngiad yn y nifer o garcharorion nad oeddynt yn gweithio neu'n cymryd rhan mewn addysg a oedd wedi arfer defnyddio'r llyfrgell ar gyfer gadael eu hasgell, a charcharorion yn dewis gwylio'r teledu yn lle hyn.

## 7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

Yn anffodus, yn ystod y cyfnod hwn roedd adegau o hyd pan fyddai'r gweithdai ar gau oherwydd y pandemig a'r cyfyngiadau symud a orfodwyd ar y carchar gan HMPPS.  Caniatawyd i rai gweithdai hanfodol barhau (glanhau dadheintio bioberyglon (BICS), storfeydd diwydiannau, golchdy, arwyddion ac argraffu, caban symudol Delta, gwaith saer), ond yn anffodus bu'n rhaid i'r mwyafrif o weithdai eraill barhau ar gau.  Roedd cyfnodau pan ddaeth y cyfyngiadau symud i ben yn y carchar a gellid agor pob un o'r gweithdai (gyda llai o garcharorion yn bresennol), ond cyfyngwyd ar hyn oherwydd cynnydd yn nifer yr achosion o Covid drwy'r carchar (staff a charcharorion) a oedd yn gorfodi i'r gweithdai gau unwaith eto.

Roedd yn rhaid i'r gweithdai hynny a oedd yn cael parhau yn ystod y cyfnod anodd hwn ddarparu gwerth i'r carchar ac i ystâd ehangach G4S: y golchdy ar gyfer golchi'r holl PPE arbenigol angenrheidiol, caban symudol Delta er mwyn sicrhau bod pecynnau brecwast y carcharorion yn parhau, arwyddion ac argraffu er mwyn parhau gyda'r arwyddion Covid yr oedd eu hangen ar draws ystâd gyfan G4S yn y DU, y storfeydd diwydiannau er mwyn casglu a dosbarthu'r stoc angenrheidiol o amgylch y carchar, BIC er mwyn cydlynu'r gwaith glanhau angenrheidiol ar gyfer llygredd Covid a bioberyglon a gwaith saer er mwyn parhau gyda'r prosiect adeiladu lleol (a oedd o fudd i'r gymuned leol). O ran y gweithdai hynny a oedd yn parhau i fod ar gau, roedd yr hyfforddwyr a fyddai wedi'u lleoli yn y gweithdai hyn fel arfer yn parhau i sicrhau bod y staff a'r carcharorion yn derbyn eu pecynnau llesiant (siocled, diod, creision, llyfrau chwilair ac yn y blaen).

Ar gyfer y carcharorion hynny sy'n cael eu cyflogi yn y gweithdai galwedigaethol, roedd hyn yn golygu na allai rhai ohonynt gwblhau eu cwrs (am eu bod ar fin cael eu rhyddhau neu eu trosglwyddo i garchar categori D). Ar gyfer y carcharorion hynny a oedd yn aros yn y Parc, gallai'r hyfforddwyr roi eu gwaith theori iddynt allu parhau â'r gwaith yn y gell, fel y gallent, pryd bynnag y byddai cyfle i wneud hynny, ddychwelyd i'r gweithdai i barhau ag agwedd ymarferol eu cwrs (yn amodol ar gyfyngiadau Covid ar y pryd). Dylid nodi mai'r Parc oedd un o'r carchardai cyntaf yn y DU i ddod allan o gyfyngiadau o'r fath ac i ailagor y gweithdai cyn gynted â phosibl, gyda llai o niferoedd yn dechrau. Yna cynyddwyd y ffigurau presenoldeb yn y gweithdai i'w huchafswm arferol.

## 7.3 Rheoli, cynnydd troseddwyr

Profodd y tîm rheoli troseddwyr anawsterau staffio yn ystod y flwyddyn adrodd, o ganlyniad i swyddi gwag staff mewn rolau carchar a rheolwyr troseddwyr prawf (POM), y tîm gweinyddu achosion a'r ffaith bod staff gweithredol yn parhau i gael eu traws-adleoli er mwyn helpu pan oedd absenoldebau Covid yn uchel. Er gwaethaf hyn, cyflawnwyd gwaith o safon uchel, gyda 1,078 o asesiadau'r system asesu troseddwyr (OAS) yn cael eu cwblhau (cyfartaledd o 83 y mis) a 178 o adolygiadau categori diogelwch ar gyfartaledd. Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynwyd strwythur datblygu diwygiedig ar gyfer POMS, gyda chyfres wedi'i diffinio'n glir o hyfforddiant ar gyfer gweithio gyda phob math o garcharorion, gan gynnwys carcharorion risg uchel a charcharorion â dedfryd oes a charcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhyw. Byddai hyn yn creu tîm mwy profiadol a llwyth achosion mwy cyfartal. Roedd gwaith a oedd yn gysylltiedig â phrofiannaeth yn parhau i fod yn uchel, yn ogystal â'r nifer o garcharorion a oedd wedi'u hadalw, a oedd yn 452 ym mis Mawrth 2022.

## 7.4 Cyswllt â'r teulu

Roedd ymweliadau mewn person yn weithredol yn ystod y cyfnod, ond cafodd rhai eu hoedi oherwydd y cyfyngiadau Covid. Dechreuwyd cynnal galwadau fideo cymdeithasol ar 1 Medi. O ystyried y cyfyngiadau ar ymweliadau mewn person, ochr yn ochr â phryderon teuluoedd ynglŷn â thrafnidiaeth gyhoeddus yn ystod y pandemig, roedd y rhain yn darparu cyswllt gweledol â theuluoedd. Caniatawyd galwad fideo cymdeithasol hanner awr unwaith y mis i garcharorion. Er i'r galwadau fideo cymdeithasol hyn brofi i fod yn ffordd dda i'r carcharorion gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd yn ystod y cyfyngiadau symud, nid oeddynt heb eu problemau. Nid oedd gan bob teulu fynediad at dechnoleg addas, ac ar y dechrau roedd y broses

cofrestru ymwelwyr gyda dull adnabod ffotograff drwy gais yn anodd.  Byddai’r sgrin yn rhewi pe byddai person heb awdurdod yn ymddangos neu os oedd symudiadau annisgwyl neu iaith amhriodol.  Mae’r Bwrdd yn deall nad oedd bob amser yn rhwydd yn emosiynol i garcharorion weld eu teuluoedd yn eu lleoliad cartref pan oedden nhw’n destun cyfundrefn mor gaeth.  Roedd lefel y diddordeb yn is na’r disgwyl; er enghraifft, yn yr wythnos yn dechrau 4 Ionawr 2021, dim ond 50% o’r naw galwad fideo cymdeithasol dyddiol a ddefnyddiwyd.

### 7.5 Cynllunio i ailsefydlu

Ym mis Mehefin 2021, daeth y contract i ddarparu gwasanaethau ailsefydlu gan Ymddiriedolaeth St Giles i ben a dechreuodd contract newydd.  Dim ond dwy elfen o’r contract a oedd ar waith yn ystod y cyfnod adrodd (gwasanaethau llety gan Ymddiriedolaeth Forward a llesiant a chynhwysiant cymdeithasol gan St Giles Wise) a pharhaodd y staff i weithio’n gadarnhaol gyda rheolwyr contract HMPPS er mwyn darparu gwasanaethau ailsefydlu effeithiol i gefnogi ailintegreiddio ar ôl rhyddhau.

O ran yr elfen gweinyddu achosion a gwarchodaeth yn yr adran, parhawyd i gyflawni gwaith trafodol yn ymwneud â chyfrifo dedfrydau, gwiriadau cyn rhyddhau, cyrffyw cyfyngu i’r cartref (HDC) a pharôl.

# 8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Er mwyn ymgymryd â'i gyfrifoldeb i fonitro triniaeth carcharorion yn y Parc, byddai'r Bwrdd fel arfer yn ymgysylltu â charcharorion mewn nifer o ffyrdd.

Yn ystod ymweliadau rota, fe ymatebodd aelodau'r Bwrdd i geisiadau, a monitro ar draws holl feysydd y carchar; fodd bynnag, fel y nodwyd, cynhaliwyd yr holl waith monitro ar hyd y cyfnod hwn o bell.

Mae aelodau'n ymateb fel arfer yn unigol neu ar y cyd i geisiadau gan garcharorion, drwy ymweld â charcharorion ar yr esgyll neu yn eu lleoliad gwaith, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u problemau ac ymchwilio i'w cwynion drwy drafod y mater(ion) gyda'r staff cyfrifol perthnasol. Fodd bynnag, cyfyngwyd y broses hon am nad oedd yr aelodau'n mynychu'r carchar.

Roedd y pandemig yn parhau i effeithio ar waith y Bwrdd. Er i ymweliadau ailddechrau yn ystod y cyfnod adrodd dim ond un aelod a oedd yn mynychu'n rheolaidd gyda nifer fach o ymweliadau ad hoc yn cael eu cynnal gan aelodau llawn eraill, er i ddau aelod a oedd newydd eu penodi fynychu ar sail wedi'u mentora yn ystod y cyfnod.

Roedd pwyntiau cyswllt penodol i unigolion a meysydd pwnc unigol a chynhaliwyd rhywfaint o waith monitro uniongyrchol, yn bennaf ym meysydd gofal iechyd ac arsylwi byrddau trefn dda.

Un o ganlyniadau hyn oedd amhariad difrifol i gyswllt uniongyrchol â charcharorion.

Dylid nodi mai dim ond y Cadeirydd a fyddai'n ymweld ar sail reolaidd drwy gyfnod yr adroddiad hwn.

**Ystadegau'r bwrdd**

| | |
|---|---|
| Y nifer a argymhellir o aelodau'r Bwrdd | 17 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 4 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 5 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | 81 |
| Cyfanswm yr adolygiadau gwahanu a fynychwyd | 78 |

**Ceisiadau i'r IMB**

| Cod | Pwnc | Blwyddyn adrodd flaenorol | Blwyddyn adrodd bresennol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi | 5 | 3 |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cymhellion, cosbau | 4 | 6 |
| C | Cydraddoldeb | | 7 |
| D | Gweithgaredd pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, llyfrgell, trefn, amser allan o'r gell | | 12 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd | 1 | 18 |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys cyflog, arian preifat, arian gwario | | 11 |
| F | Bwyd a cheginau | | 7 |
| G | Iechyd, gan gynnwys gofal corfforol, meddyliol, cymdeithasol | 3 | 12 |
| H1 | Eiddo o fewn y sefydliad | 1 | 10 |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddiad neu mewn sefydliad neu leoliad arall | 2 | 11 |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au) | | 2 |
| I | Rheoli dedfryd, gan gynnwys HDC, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio | 1 | 3 |
| J | Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio | 1 | 16 |
| K | Trosglwyddiadau | | 7 |
| L | Amrywiol, gan gynnwys system gwynion | | 15 |
| | Cyfanswm y ceisiadau | 9 | 130 |

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn imb@justice.gov.uk.